

# Cyfle wedi'i ariannu'n llawn i ymuno â'r Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol

Rydym yn falch o lansio cyfle cyffrous ar gyfer arweinwyr canol/uwch yn yr ysgol gan y tîm Dysgu Creadigol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth ag Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru i allu gweithio gyda hyd at 30 arweinydd canol/uwch o'n hysgolion ymhob rhan o Gymru. Y nod yw'ch cefnogi i ddeall swyddogaeth creadigrwydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru a'ch helpu i annog arloesedd yn eich ysgol drwy godi hyder ymarferwyr i fentro a datblygu gwytnwch.

Mae'r **Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol** yn tynnu ar ein profiad o hwyluso dysgu proffesiynol yng nghynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a'n dealltwriaeth a'n gwybodaeth ehangach o sut y gall arweinwyr ysgolion annog arloesedd yn eu hysgol.

Mae ein model yn seiliedig ar dystiolaeth o ddysgu proffesiynol effeithiol a chanllawiau cyfredol gan Lywodraeth Cymru. Mae ein darpariaeth yn seiliedig ar y model dylunio pedair elfen o gydweithio, ymarfer myfyriol, defnyddio tystiolaeth data ac ymchwil a hyfforddi a mentora.

Yn ganolog hefyd i'n gwaith mae'r themâu allweddol o ddysgu drwy brofiad, cyfoethogi a datblygu sgiliau creadigol. Mae ein gwaith yn cael ei gydnabod fwyfwy fel ffactor allweddol i sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.


Partneriaeth rhwng Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru

Cymeradwywyd gan | Endorsed by
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government



**Bydd y broses yn dechrau gyda phrofiad deuddydd wyneb yn wyneb wedi'i hwyluso gan Gyngor Celfyddydau Cymru.** Bydd yn gyfle dysgu dwys gan dynnu ar brofiadau, gyda phwyslais ar ymarfer myfyriol. Byddwn yn herio cyfranogwyr i feddwl yn onest am eu hymarfer a'u cyd-destun proffesiynol a nodi'r rhwystrau i'w gallu i ddod yn arweinwyr creadigol.

Yn dilyn y cwrs deuddydd, bydd pob uwch arweinydd yn cychwyn ar raglen ddatblygu 12-18 wythnos. Bydd yn cael ei baru ag Asiant Creadigol a fydd yn gweithredu fel hyfforddwr arweinyddiaeth a mentor creadigrwydd neu gyfaill beirniadol. Bydd y rhaglen yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar ymholiad i ddatblygu creadigrwydd y cyfranogwyr, eu helpu i gychwyn newid yn eu hysgol a'r canlynol:


- Cyflwyno addysgeg dysgu creadigol i'r cyfranogwyr a'u helpu i feithrin yr hyder i ledaenu'r egwyddorion allweddol i'w staff.
- Datblygu dealltwriaeth o swyddogaeth ganolog cydweithio a chydadeiladu mewn dulliau dysgu creadigol.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o hinsoddau dysgu sy'n annog creadigrwydd, meddwl beirniadol a datrys problemau.
- Rhannu enghreifftiau o brosiectau dysgu creadigol o Gynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a'u heffeithiau ar athrawon a disgyblion, yn ogystal â newid ysgol gyfan.
- Annog dysgu proffesiynol ac asiantaeth athrawon drwy ddulliau deiliedig ar brofiad, deialog ac ymarfer myfyriol.
- Codi ymwybyddiaeth o leoedd democrataidd lle ystyrir bod pob llais yn bwysig.
- Dangos sut mae dysgu creadigol yn ategu'r cwricwlwm newydd, y ffordd genedlaethol o ran dysgu proffesiynol a'r model o ystyried ysgolion fel sefydliadau dysgu.

Hoffwn bwysleisio y bydd y ddarpariaeth yn bwrpasol, wedi'i harwain gan eich ymholiad am arweinyddiaeth greadigol er inni roi blwch offer o syniadau a dulliau ichi. Wrth i'r broses ddatblygu, mater i'r cyfranogwr fydd archwilio a threialu ffyrdd newydd o weithio. Byddant yn cael eu hannog i gysylltu â chydweithwyr sydd wedi datblygu ymarfer ac arddull arweinyddiaeth greadigol, ymchwilio i addysgeg greadigol a defnyddio hyn i lywio eu gwaith.

Ar ddiwedd y broses, bydd gofyn i arweinwyr canol/uwch ysgrifennu gwerthusiad sy'n dangos effaith yr ymholiad a dechrau cynllunio eu cylch nesaf.

Cymeradwywyd gan | Endorsed by
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

> **Mae'r ddarpariaeth yn ysbrydoli ac yn ysgogi'r genhedlaeth bresennol a'r nesaf o arweinwyr ar bob lefel o'u gyrfa, yn cefnogi llesiant ac yn diwallu ystod amrywiol o anghenion.**
>
> Adborth oddi wrth arweinydd ysgol, 2022



Dyma gyfle cyffrous i ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o effaith addysgeg greadigol a chynorthwyo cyfranogwyr i greu hinsawdd ar gyfer arloesi a dysgu proffesiynol. Os hoffech gael eich ystyried fel cyfranogwr yn y Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol, defnyddiwch y penawdau sydd yn y templed atodedig.

**Byddem yn croesawu'n arbennig fynegi diddordeb gan ymgeiswyr o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol.**

**Rydym yn croesawu mynegi diddordeb gan arweinwyr dysgu ar draws POB Maes Dysgu a Phrofiad ac nid yn unig y Celfyddydau Mynegiannol.**

**Dylid mynegi diddordeb erbyn hanner dydd ar 20 Chwefror 2024 drwy** lenwi'r ffurflen hon.

Os byddwch yn llwyddiannus wrth fynegi diddordeb, bydd y profiad deuddydd wyneb yn wyneb a hwylusir yn digwydd

- **De Cymru: 4 & 5 Mawrth 2024**
- **Gogledd Cymru: 11 & 12 Mawrth 2024**

Bydd yn rhaid hefyd ichi ddod i gyfarfodydd rhwydweithio ar-lein ar **29 Ebrill 2024** a **5 Mehefin 2024** a digwyddiad rhannu

- **De Cymru: 3 Gorffennaf 2024**
- **Gogledd Cymru: 5 Gorffennaf 2024**

Byddwn yn talu costau cyflenwi ar gyfer pob dyddiad.

## Y Darparwyr

Aelodau o'r tîm Dysgu Creadigol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru fydd yn darparu'r cyfle dysgu proffesiynol. Nod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yw hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion a dysgu drwy'r celfyddydau i gynnig cyfleoedd i ddatblygu rhaglen ddysgu arloesol a phwrpasol sydd â'r nod o drawsnewid ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r cynllun yn defnyddio technegau addysgu a dysgu datblygedig sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fod yn ymarferol ac yn berthnasol i ysgolion a gwir ofynion eu cwricwlwm. Mae'r technegau hyn yn cael eu llywio gan ymchwil helaeth o bob cwr o'r byd i'r hyn sy'n gwneud ysgol yn un sy'n perfformio'n dda. Ar hyn o bryd mae dros 740 ysgol ledled Cymru wedi ymgysylltu â'n gwaith neu wedi elwa o'n gwaith.

**Ebostiwch ymholiadau i:**

- karen.dellarmi@celf.cymru
- lora.winfield-young@celf.cymru
- shaun.featherstone@celf.cymru

### Tanysgrifiwch i'n cylchlythyr er mwyn clywed y diweddaraf.

Cymeradwywyd gan | Endorsed by
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government